Datganiad gan y Dirprwy Lywydd, ar ran Pwyllgor y Ty^, yn ymateb i argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal "Prif-ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol".

1. Mae Pwyllgor y Ty^ yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac yn nodi mai archwilio trefniadau cydraddoldeb y Cynulliad cyfan yw ei gylch gwaith.

2. Mae amryw o'r argymhellion yn benodol berthnasol i waith Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Gwelir isod ymateb Pwyllgor y Ty^ i'r rhain:

Pennod 7: Gwneud Cynnydd – Pobl

Argymhelliad13 – Mae'r Pwyllgor yn argymell :

Darparu hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau penodol. Dylai gael ei gyflwyno mewn sesiynau byr er mwyn cyd-fynd ag amserlen yr Aelodau a dylid ystyried cynnig sesiynau byr ar ddydd Llun neu ddydd Gwener yn etholaethau'r Aelodau. Ni ddylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan yng ngweithgareddau panel sy'n gwneud penodiad cyhoeddus oni bai y buont ar gwrs hyfforddiant ar gydraddoldeb.

3. Bydd hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Cynulliad bob amser o reidrwydd yn wirfoddol, ond bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn sicrhau'i fod ar gael i'r Aelodau mewn modd sydd yn berthnasol yn ogystal â bod yn hwylus iddynt. Bydd tîm Adnoddau Dynol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn datblygu rhaglen o hyfforddiant i'w thrafod gan Bwyllgor y Ty^ yn y Flwyddyn Newydd.

4. Bydd Pwyllgor y Ty^ yn adolygu'r argymhelliad na ddylai Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan ar banel penodiadau cyhoeddus oni bai eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol ar gydraddoldeb.

5. **Goblygiadau Ariannol:** Anodd yw bod yn fanwl ar hyn o bryd ond ni fyddant yn fawr iawn.

Pennod 9: Gwneud Cynnydd – Monitro a Gwerthuso

Argymhelliad 26 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod:
Pwyllgorau eraill y Cynulliad yn cyflwyno blaenraglenni gwaith strategol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried a yw'r flaenraglen waith yn rhoi digon o ystyriaeth i gydraddoldeb ac yn gwneud sylwadau fel y bo'n briodol. Ymhellach, dylai adroddiad blynyddol pob pwyllgor pwnc gynnwys adran yn nodi sut y mae eu gweithgaredd dros y flwyddyn flaenorol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd a bennwyd mewn perthynas â chydraddoldeb yn Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru.

6. Anfonwyd Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Pwnc at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal fel y dangosir yn yr ymateb i Argymhelliad 27 isod.

7. **Goblygiadau Ariannol:** Dim.

Argymhelliad 27 - Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Paratoi rhestr wirio syml o gwestiynau, yn seiliedig ar y pecyn canllawiau a awgrymwyd yn argymhelliad 23, i'w defnyddio gan bwyllgorau. Dylai'r rhestr wirio hon gael ei llunio drwy ymgynghori â Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

8. Mae Panel y Cadeiryddion wedi trafod Prif-ffrydio Cydraddoldeb ar ddau achlysur ac wedi gofyn am fwy o arweiniad ar y pwnc i'w cynorthwyo wrth drin cydraddoldeb yn eu Blaenraglenni Gwaith. Bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn datblygu'i ganllawiau'i hun ar gyfer ei ddefnyddio'n benodol gan y Pwyllgorau, a bydd yn mynd ymlaen â'r argymhelliad hwn wrth ymgynghori â Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Gwahoddwyd y Gwahoddedigion Sefydlog i ddod i gyfarfod Panel y Cadeiryddion ar 25 Ionawr 2005 i drafod â'r Panel y dulliau yn dylid eu harfer wrth drin materion cydraddoldeb wrth lunio Blaenraglenni Gwaith ac Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau.

9. Mae Pwyllgor y Ty^ hefyd yn gwneud y sylwadau canlynol ar argymhellion y mae ymateb iddynt yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan fod y rhain yn argymhellion sydd â goblygiadau hefyd i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad.

Pennod 2: Cylch Gwaith a Diffiniadau

.
Argymhelliad1 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r diffiniad isod o brif ffrydio:

"*Mae a wnelo 'Prif-ffrydio' cydraddoldeb â chyfannu egwyddorion, strategaethau ac arferion parchu amrywiaeth a rhoi cyfle cyfartal, â gwaith beunyddiol y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill. Golyga hyn y dylid cynnwys materion*

cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf fel rhan hanfodol o'r gwaith o lunio polisïau a'r broses o gyflwyno gwasanaeth a dylai pob agwedd o waith pob unigolyn mewn sefydliad fod wedi'i seilio ar gyflawni gofynion cydraddoldeb.Dylid penderfynu a yw prif-ffrydio'n llwyddo drwy bwyso a mesur i ba raddau y mae anghydraddoldebau wedi gostwng."

10. Mae Pwyllgor y Ty^ yn derbyn yr argymhelliad hwn.

11. **Goblygiadau Ariannol:** Amhosibl bod yn benodol

Pennod 6: Gwneud Cynnydd – Strategaeth ac Arweiniad

Argymhelliad 4 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Y dylai'r Cynulliad barhau i osod esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, ond lle nad yw'r Cynulliad yn arwain y ffordd, dylai ganfod enghreifftiau o arferion da ar draws y sector cyhoeddus ac annog cyrff cyhoeddus eraill i gyrraedd safon a fydd yn gyfatebol â'r safon orau.

12. Bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cael ei gynrychioli ar Grw^p Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn trafod yr argymhelliad hwn a rhai eraill, er mwyn trafod materion sydd yn effeithio ar Wasanaeth Seneddol y Cynulliad.

13. **Goblygiadau Ariannol:** Efallai y bydd rhywfaint o gostau yn sgil gweithgareddau hybu ond mae hi'n annhebygol y bydd y rhain yn fawr.

Argymhelliad 5 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Y dylai holl Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod camau'n cael eu cymryd o fewn eu portffolios i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio yn y
meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt.

14. Bydd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgorau Pwnc yn craffu ar Weinidogion ynghylch yr agwedd hon ar eu portffolios. Bydd swyddogion yn adolygu canllawiau mewnol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i Glerciaid, Cadeiryddion ac Aelodau i sicrhau bod sylw haeddiannol yn cael ei roi i'r dyletswydd hwn.

15. Goblygiadau Ariannol - Dim.

Pennod 7: Gwneud Cynnydd – Pobl

Argymhelliad 7 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
bod y Cynulliad yn sicrhau bod system newydd TG Adnoddau Dynol yn gallu cynhyrchu data awdurdodol ynglyˆn â chyfansoddiad staff y Cynulliad.

16. Bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn hybu defnyddio system newydd TG Adnoddau Dynol i sicrhau bod y data a gedwir yn hollgynhwysol ac y gellir eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd polisïau Adnoddau Dynol perthnasol.

17. **Goblygadau Ariannol:** Dim.

Argymhelliad 8 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn sicrhau cytundeb ynglyˆn â'r strategaeth recriwtio a'i bod yn cael ei rhoi yn ei lle cyn gynted â phosib. Rydym yn argymell ymhellach bod yr Ysgrifennydd Parhaol a Bernard Galton, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Cynulliad a benodwyd yn ddiweddar, yn cyflwyno'r strategaeth er mwyn i ni ei hystyried ac yn trafod eu blaenoriaethau i gynyddu amrywiaeth ar bob lefel o fewn llafurlu'r Cynulliad ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

18. Bydd tîm Adnoddau Dynol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn monitro ystadegau recriwtio a sicrhau'u bod ar gael i'r cyhoedd yn flynyddol. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror bydd Pwyllgor y Ty^ yn trafod Protocol Atodi Llywodraeth y Cynulliad – polisi recriwtio a luniwyd i hyrwyddo cyfuno'r CCNC â Chynulliad Cenedlaethol Cymru – ac ai priodol fyddai ei weithredu ar gyfer swyddi yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

19. Goblygiadau Ariannol: - Dim.

Argymhelliad11 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Bod hyfforddiant ynglyˆn â materion cydraddoldeb yn parhau er mwyn ffurfio rhan allweddol o raglen gynefino'r Cynulliad ar gyfer y staff. Dylai rhaglen barhaus o
hyfforddiant yn ymwneud â chydraddoldeb yn benodol gael ei chyflwyno. Dylai'r hyfforddiant gael ei werthuso a'i adolygu'n barhaus.

20. Bydd tîm Adnoddau Dynol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn monitro ac yn adolygu'r rhaglen hyfforddi anwytho newydd ar gyfer holl staff newydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i sicrhau'i bod yn codi ymwybyddiaeth am faterion cydraddoldeb ac yn galluogi'r staff i hybu cydraddoldeb a chyflawni gofynion statudol cydraddoldeb.

21. Mae'r system rheoli perfformiad sydd gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad yn clustnodi ac yn gweithredu hyfforddiant cydraddoldeb parhaus a phenodol sy'n gweddu i swyddogaethau unigol y staff a'u cyfrifoldebau.

22. **Goblygiadau Ariannol**: Wedi'u cynnwys yn barod mewn cyllidebau hyfforddiant.

Pennod 8: Gwneud Cynnydd – Camau Ymarferol, Canllawiau a Chyngor

Argymhelliad 14 – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod:
Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi eglurhad ynglyˆn â rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn arbennig i bwy y mae'n adrodd ac i bwy y mae'n gyfrifol am roi cyngor. Dylai'r eglurhad hwnnw sicrhau bod cyngor ar gydraddoldeb o'r safon uchaf bosib ar gael i bob Gweinidog, yn ogystal â'r Cynulliad yn gorfforaethol a'r Pwyllgorau. Rydym hefyd yn argymell bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod yr Uned wedi'i staffio'n llawn a bod gan y staff yr arbenigedd priodol a'u bod yn derbyn yr hyfforddiant priodol.

23. Bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ymchwilio'r dewis o glustnodi hyrwyddwr Cydraddoldeb.

23. **Goblygiadau Ariannol**: Bydd unrhyw wariant yn cael ei gynnwys yn y costau rhedeg presennol.

Argymhelliad 15 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Y dylai pob Is-adran yn y Cynulliad sicrhau bod un person, ar lefel ddigon uchel, yn gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn holl waith yr Is-adran.Dylai fod yna fyrddau cydraddoldeb ar lefel Grwˆ p yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Is-adran.

25. Ystyrir Cydraddoldeb yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Uwch Reolwyr Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mae hyn yn caniatau adolygu gweithdrefnau presennol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

26. **Goblygiadau Ariannol:** Dim.

Argymhelliad 16 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Bod adolygiad trylwyr o holl ganllawiau presennol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael ei gynnal yn rhan o'r broses o ddatblygu strategaeth gyffredinol. Yn ngoleuni'r adolygiad, dylai'r canllawiau gael eu hadolygu, os yw'n briodol, ac yna dylid hysbysu'r staff ohonynt.Dylai'r canllawiau ar bapurau Pwyllgor a chyflwyniadau Gweinidogion gael eu hadolygu hefyd er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau o safbwynt cyfle cyfartal.

27. Bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar unrhyw adolygu a wneir ar ganllawiau sy'n gysylltiedig â phapurau pwyllgor a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

28. **Goblygiadau Ariannol:** Bydd y gwaith ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cael ei gynnwys yn y costau rhedeg presennol.

Argymhelliad 17 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Adolygu canllawiau ymgynghori'r Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion cyfle cyfartal a'u bod yn delio â'r angen i fynd i'r afael ag amrywiaeth o fewn y cyhoedd yng Nghymru.

Argymhelliad 18 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Y dylai'r Cynulliad, wrth ymgynghori, geisio ymgysylltu ag ystod mor eang o unigolion a sefydliadau â phosib. Lle bo mater o bwys arbennig i grwˆ p lleiafrifol neu grwˆ p o dan anfantais rhaid cymryd camau i sicrhau y gofynnir iddynt am eu barn ac y gweithredir ar eu barn. Mewn rhai achosion bydd angen meithrin gallu o fewn y gymuned honno er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn y broses.

29. Mae Gwasanaeth Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau wedi ymrwymo eisoes i adolygu'i broses ymgynghori o ran cysylltiadau hiliol. Bydd hyn yn cael ei ehangu i gynnwys agweddau eraill ar gyfleoedd cyfartal. Bydd canlyniadau'r broses ar gael i Is-adrannau eraill Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac i bwyllgorau. Gofynnir hefyd am gyngor gan Wahoddedigion Sefydlog Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal – gweler yr ymateb i argymhelliad 27 ym mharagraff 8

30. **Goblygiadau Ariannol:** yn annhebygol o fod yn sylweddol.

Pennod 9: Gwneud Cynnydd – Monitro a Gwerthuso

Argymhelliad 24 – Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Y dylai adroddiad blynyddol y Cynulliad ar gydraddoldeb ganolbwyntio ar adrodd ar yr amcanion a amlinellwyd yn y strategaeth ar gydraddoldeb. Dylai hefyd gynnwys adroddiadau gan Weinidogion unigol ar yr hyn a gyflawnwyd o fewn eu portffolio; adroddiad gan Bwyllgor y Tyˆ ar weithgareddau'r Cynulliad yn gorfforaethol ac adroddiadau ar bolisïau corfforaethol megis Adnoddau Dynol.

31. Bydd Pwyllgor y Ty^ yn trafod cyngor y Grw^p Gorchwyl a Gorffen (Prif-ffrydio) ac yn ystyried a yw'n dymuno cymryd agwedd ar y cyd tuag at adrodd yn y dyfodol.

32. **Goblygiadau Ariannol:** Anhysbys, ond yn annhebygol o fod y tu hwnt i gynnwys dyraniadau presennol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.